- 2.6. Saif PSRh oddi fewn i gwmpas ehangach Tyfu Canolbarth Cymru sy'n gyfrifol am Fargen Twf Canolbarth Cymru. Rhaglen gyfalaf sy'n ariannu yw hon sy'n chwarae rôl allweddol wrth gataleiddio adfywio a thwf economaidd a thwf yn economi Canolbarth Cymru, gyda'r nod o gefnogi creu swyddi a chynyddu cynhyrchedd ac uchelgais cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

**Ein gweledigaeth** – yn ôl yr hyn a osodwyd yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod Bargaen Twf Canolbarth Cymru ("y Cytundeb").

Ein gweledigaeth yw alinio'r sectorau cyhoeddus a phreifat i fynd i'r afael â materion cyflenwad a galw i gael gweithlu effeithiol ac ystwyth,

sydd â'r lefel briodol o sgiliau, i ddenu buddsoddiad mewnol i Ganolbarth Cymru a gwella rhwydweithiau cyfathrebu rhwng sectorau a deall a dynodi llwybrau dysgu a gyrfaol i mewn i gyflogaeth hir dymor, sy'n briodol i ddinasyddion Canolbarth Cymru.

**Ein cenhadaeth.** Mae'r Bwrdd PSRh yn gweithredu fel grŵp rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu ac ymgynghori â sectorau, diwydiannau a rhanbarthau penodol:

- Er mwyn dynodi ac ymateb i anghenion cyflogwyr a dysgwyr ledled Canolbarth Cymru;
- I ymgysylltu â chyflogwyr, sectorau a rhanddeiliaid i ddynodi anghenion cyfredol ac i'r dyfodol o ran sgiliau ledled y rhanbarth a chynllunio yn ôl hynny;
- Alinio gweithgaredd yn ôl galw yn y dyfodol, a sbarduno menter drwy ddysgu a chyflogaeth;
- Galluogi ymateb rhanbarthol cynhwysol i bolisi a mentrau Llywodraeth Cymru;
- Alinio gweithgaredd gyda gofynion sgiliau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

**Ein nodau.**

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddynodi gofynion sgiliau o'r sector cyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru;
- Sefydlu methodoleg i ddynodi cyfleoedd cyflogi yn y dyfodol ar draws yr holl sectorau;
- Sefydlu grŵp strategaeth cwricwlwm i alinio llwybrau dysgu a llwybrau cynnydd i holl ddysgwyr CA4 / 5 i mewn i raglenni hyfforddi dysgu seiliedig ar waith / Addysg Bellach / Addysg Uwch neu gynllun prentisiaeth rhanbarthol neu gynlluniau galwedigaethol, Cyflwyno gradd Addysg Uwch a chysiau meistr sy'n alinio'r agenda sgiliau yn y dyfodol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru;
- Sefydlu cynllun prentisiaeth rhanbarthol (gan gynnwys prentisiaethau a rennir) sy'n pontio ac yn alinio sectorau cyhoeddus a phreifat sy'n cydnabod sgiliau trosglwyddadwy;
- Cynhyrchu cyfarwyddyd gyrfa arloesol i holl ddysgwyr Canolbarth Cymru i gysylltu dysgu a llwybrau gyrfa;
- Datblygu'r cysyniad o 'Ganolfannau Rhagoriaeth' yng Nghanolbarth Cymru;
- Gweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau cyfleoedd am gefnogaeth gydol gyrfa ar gyfer uwch-sgilio'r gweithlu presennol, gan gynnwys y rheini mewn cyflogaeth byr dymor;
- Caiff yr holl weithredoedd eu tanategu gan ffocws dwyieithog cryf sy'n cyfrannu, drwy'r system addysg ddwyieithog unigryw a'r gweithlu ledled Canolbarth Cymru, at y weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



### 3. Penodi Cadeirydd PSRh a Thîm PSRh

- 3.1. Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol Bwrdd PSRh ar 12 Mai 2021. Penodwyd Adrian Watson, Pennaeth yr Ysgol, Canolfan y Dechnoleg Amgen fel Cadeirydd Dros Dro Bwrdd PSRh. Ar 21 Medi 2021, cymeradwyodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru benodiad y cadeirydd dros dro presennol fel y gwir Gadeirydd nes cyfarfod blynyddol y Bwrdd PSRh.
- 3.2. Dechreuodd Aggie Caesar-Homden ar ei rôl fel Rheolwr PSRh Canolbarth Cymru ar 8 Mehefin 2021.
- 3.3. Dechreuodd Swyddog Ymgysylltu Cyflogwr PSRh, Jean Farmer, ar ei rôl ym mis Rhagfyr 2021, ac ymunodd y Swyddog Cefnogi Prosiect, Arinola Ogundeji, â thîm PSRh ym mis Gorffennaf 2022.
- 3.4. Ni chafwyd llwyddiant hyn yma wrth recriwtio Swyddog Datblygu Data PSRh. Byddwn yn ailymweld â hyn dros y misoedd nesaf.
- 3.5. Ar hyn o bryd mae PSRh yn recriwtio am Swyddog Prosiect i helpu i arwain ar y Warrant i Bobl Ifanc.

### 4. Aelodaeth Bwrdd PSRh

- 4.1. Gwnaeth y Cylch Gorchwyl osod allan tabl aelodaeth a'i gynnig i'r PSRh. Cytunodd yr Awdurdodau Lleol y byddai'r tabl isod yn cymryd lle'r tabl gwreiddiol a gafodd ei gynnig:

Aelodaeth PSRh	
2 x Cynrychiolydd Addysg Uwch	Un cynrychiolydd o bob un o'r Prifysgolion (Aberystwyth a Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)
2 x Cynrychiolydd Addysg Bellach	Un cynrychiolydd o bob un o'r colegau (NPTC a Choleg Sir Gâr)
2 x Cynrychiolydd Addysg a Sgiliau	Un swyddog o bob awdurdod lleol
2 x Arweinydd Cynllunio Gweithlu Strategol	Un swyddog o bob awdurdod lleol
2 x Cynrychiolydd Adfywio	Un swyddog o bob awdurdod lleol
2 x Cynrychiolydd Iechyd	Un cynrychiolydd o bob un o'r Byrddau Iechyd (Bwrdd Addysgu Iechyd Powys a Bwrdd Iechyd Hywel Dda)
Darparwyd Hyfforddiant	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

	+ Dysgu Seiliedig ar Waith darparwyr o bob ALI
<p><b>Diwydiant / Cyflogwyr</b></p> <p>Blaenoriaethau Twf Strategol ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru yw Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod, Trafnidiaeth</p> <p>Cefnogi Menter</p> <p>Sgiliau a Chyflogaeth</p> <p>Ynni</p> <p>Cryfhau'r hyn mae Twristiaeth yn ei gynnig</p> <p>Ymchwil Cymwysedig a Menter</p> <p>Digidol</p> <p>Dylai'r holl feysydd hyn gael eu cynnwys gan y gynrychiolaeth sy'n cael ei chynnig ar gyfer y PSRh.</p>	<p>Cynrychiolydd o bob un o'r sectorau sy'n deillio o'r rheini a ddynodwyd yn Adroddiad AECOM :</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Twristiaeth – gan gynnwys lletygarwch ac arlwyo</li> <li>2. Gweithgynhyrchu</li> <li>3. Amaethyddiaeth ac economi'r tir</li> <li>4. Gwasanaethau Cyhoeddus – a allai gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol, gwasanaethau argyfwng ac amddiffyn</li> <li>5. Sectorau Sylfaen *</li> <li>6. Gwasanaethau Digidol (mae'r grŵp hwn yn ychwanegol at grwpiau a ddiffinnir gan AECOM)</li> </ol> <p>*Mae'r "sector" hwn yn arbennig o arwyddocaol o ran ei raddfa gymharol yng Nghanolbarth Cymru ac mae'n cynnwys seilwaith, gwasanaethau, prosesu bwyd, manwerthu a dosbarthu, ac iechyd, addysg a lles. Byddai hyn yn teilyngu dadansoddi pellach, a theilyngdod penodol wrth flaenoriaethu gan ystyried cynrychiolaeth o iechyd a gofal cymdeithasol (caiff addysg ei chynrychioli yn y segmentau eraill).</p>
Cynrychiolwyr Aelodau Cabinet Tyfu Canolbarth Cymru	Penodwyd Un Aelod Cabinet o bob Awdurdod Lleol
Gyrfa Cymru	Penodwyd
Canolfan Waith a Mwy / Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Penodwyd
Rheolwr PSRh	Penodwyd
Arall	Partneriaid eraill o ddiwydiant, grwpiau cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch neu drydydd sector i gael gwahoddiad yn ôl y gofyn. Gallai'r rhain gynnwys mudiadau gwirfoddol lleol a phartneriaid addysg neu hyfforddiant o'r tu allan i'r ddau awdurdod a allai ddymuno gweithio oddi fewn i'r ddau awdurdod, neu a allai gynnig llwybrau i

	mewn i addysg neu hyfforddiant i bobl rhanbarth Canolbarth Cymru.
--	---

- 4.2. Mae yna fylchau sy'n wybyddus o ran aelodaeth cyflogwr/sector, er enghraifft, Amaethyddiaeth a'r Defnydd o Dir, Bwyd a Diod.
- 4.3. Mae nifer o sefydliadau wedi cysylltu â Chadeirydd PSRh a Rheolwr Partneriaeth PSRh, yn gofyn i ymuno â grŵp clwstwr Bwrdd PSRh.
- 4.4. Mae'r Rheolwr PSRh wedi adolygu aelodaeth y tri PSRh arall a'u grwpiau clwstwr. Mae ceisiadau aelodaeth a dderbyniwyd hyd yma'n gyson â PSRhau eraill.
- 4.5. Ar 21 Medi 2021, cymeradwyodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru fod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gadeirydd PSRh ar y cyd â'r Rheolwr PSRh i adolygu'r aelodaeth gyfredol a sefydlu nifer o grwpiau clwstwr.
- 4.6. Hyd yma, mae Grŵp Clwstwr Gwasanaethau Cyhoeddus a Grwpiau Clwstwr Darparwyf Hyfforddiant wedi cael eu sefydlu.
- 4.7. Rhoddwyd galwad allan i fusnesau ymuno â'r Grŵp Clwstwr Busnes. Rhagwelir y bydd y Grŵp Clwstwr hwn yn cael ei sefydlu yr hydref hwn.
- 4.8. Caiff Grŵp Clwstwr newydd ei sefydlu i ganolbwyntio ar Warant i Bobl Ifanc.
- 4.9. Cafodd Gweithgor Strategol Rhanbarthol gyda Phenaethiaid Addysg oddi fewn i'r ddau Awdurdod Lleol eu sefydlu.
- 4.10. Cafodd grŵp Rhwydwaith Cyflogadwyedd Strategol Rhanbarthol ei sefydlu ar y cyd â Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol Tyfu Canolbarth Cymru.
- 4.11. Caiff Grwpiau Gorchwyl a Gorffen eu creu yn ôl y gofyn.

## 5. Allbynnau Bwrdd PSRh

5.1. Mae'r Bwrdd PSRh wedi bod yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith allweddol sy'n ofynnol i ddarparu rhaglen waith glir i'w dilyn, gan gynnwys meysydd allweddol strwythur, dynodi anghenion, adeiladu partneriaeth a chynllunio i'r dyfodol.

5.2. Hysbysodd Llywodraeth Cymru'r rhanbarth am y targedau oedd angen eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, 2021 - 2022 ac a fanylir yn Atodlen 2 y Llythyr Dyfarnu Grant. Mae'r adroddiadau tystiolaeth a honiadau wedi cael eu cyflwyno yn unol â hynny er mwyn cael arian oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Roedd y targedau allweddol a gafodd eu cynnwys yn Atodlen 2 fel a ganlyn:

Tasg	Gweithgareddau Penodol Ebrill 2021 – Mawrth 2022	Llinell Amser
Casglu, cynhyrchu a dosbarthu Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) i gefnogi blaenoriaethau cyfredol Llywodraeth Cymru. Cyfarwyddyd pellach i gael ei ddarparu.	Adroddiadau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur, Covid-19/Brexit.	Tri adroddiad yn ystod y flwyddyn – dyddiadau i'w pennu.
Mabwysiadu swyddogaeth Grwpiau Ymateb Rhanbarthol ar Gyflogaeth.  <b>Cyfarwyddyd pellach i gael ei ddarparu.</b>	Dylai PSRhau barhau i weithio'n agos at eu Prif Swyddogion Rhanbarthol perthnasol a'u rhanddeiliaid i gefnogi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a hefyd i fod yn ymwybodol o faterion traws-ffiniol.	O fis Mai 2021
Darparu ysgrifenyddiaeth i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB).	PSRhau i ddarparu ysgrifenyddiaeth lawn gan gynnwys: trefnu cyfarfodydd, cymryd cofnodion a chroesawu aelodau yn ôl trefn cylchdro i'r cyfarfodydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ar gynnwys	O fis Medi 2021

	polisi a darparu cefnogaeth i Weinidogion.	
<p>Cefnogi'r aliniad o gyflenwad a galw ar draws y system sgiliau.</p> <p><b><i>Cyfarwyddyd pellach i gael ei ddarparu.</i></b></p>	<p>PSRhau i ddarparu data gwaelodlin i gynllunio Addysg Bellach, gan ddefnyddio gwybodaeth dan arweiniad y cyflogwr a data LMI. Dynodi a darparu sylwadau amserol am flaenoriaethau sgiliau rhanbarthol ar draws y sectorau. Dylai cyfeiriad gael ei wneud at flaenoriaethau Lywodraeth Cymru a chynllunio Ôl-16 a Chyfarwyddyd Ariannu.</p> <p>PSRhau i gefnogi datblygu ymagwedd sydd wedi ei hadolygu ac sy'n strategol i Gynllunio ac Ariannu Ôl-16 yng ngoleuni Covid-19.</p>	Parhaus
	Dynodi blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau yn seiliedig ar wybodaeth y cyflogwr.	Parhaus
	Cefnogi Sgiliau Prentisiaethau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion busnesau Cymru a'r economi ehangach.	Parhaus
	Cynnal cydberthnasau gwaith cadarnhaol i gytuno ar flaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer addysg uwch.	Parhaus
	Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i lywio datblygu cwricwlwm.	Parhaus

	Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i lywio datblygu cwricwlwm.	Parhaus
	Llywio blaenoriaethau ar gyfer Cyfrifon Dysgu Wedi eu Personoli.	Parhaus
	Gweithio gyda dysgwyr/ cynghorwyr gyrfa i gryfhau gyrfaedd ledled rhanbarthau.	Parhaus
	Darparu sylfaen dystiolaeth i lywio datblygiad a gweithredu rhaglenni cyflogadwyedd.	Parhaus
	Parhau i weithio ag awdurdodau lleol ac ysgolion i ddiweddarau a llywio blaenoriaethau rhanbarthol/lleol.	Parhaus
Cefnogi strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru a meysydd polisi yn ôl yr hyn a gytunwyd (mae'n bosibl y gallai hyn newid neu gael ei ddiweddarau yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2021). Llywio datblygu cyfeirio polisi sgiliau ôl-etholiadol.	Y Gymraeg	Parhaus
	Economi Gwyrdd	O fis Mai 2021
	Digideiddio	
	Iechyd a Gofal Cymdeithasol	
Sectorau allweddol eraill y gellir eu cydnabod fel blaenoriaeth ôl-etholiadol.		
Hwyluso cysylltiadau mewn systemau cenedlaethol a rhanbarthol.	<p>Darparu persbectif rhanbarthol i lywio strategaethau sgiliau cenedlaethol a'r DU.</p> <p>Dynodi blaenoriaethau traws-ffiniol ac adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cydlynu cefnogaeth rhanddeiliad/darparwr ar gyfer blaenoriaethau sgiliau ar gyfer y Ganolfan Ymchwil Technoleg Uwch.</p>	Parhaus

Datblygu capasiti a galluedd yn barhaus fel rhwydwaith PSRh.	Adolygu a diweddaru aelodaeth i sicrhau bod sectorau blaenoriaeth rhanbarthol yn cael eu cynrychioli.	Parhaus
	Diweddaru/ adnewyddu Cylch Gorchwyl a threfniadau Llywodraethu.	
	Cryfhau capasiti ymchwil / dadansoddi data.	
	Gwella presenoldeb ar-lein.	
	Cynyddu cryfder arsyllfeydd sgiliau.	
	Cryfhau gweithio cydweithredol a rhannu arferion gorau rhwng PSRhau.	
Cefnogi ailadeiladu economaidd rhanbarthol a datblygiadau i'r dyfodol (gan gynnwys traws-ffiniol ble y bo'n ofynnol).	Cefnogi ailadeiladu economaidd rhanbarthol a datblygiadau i'r dyfodol (gan gynnwys traws-ffiniol ble o bo'n ofynnol).	Parhaus
	Dynodi blaenoriaethau i gefnogi buddsoddiadau rhanbarthol sy'n cefnogi swyddi a thyfiant yn y rhanbarthau.	
Cefnogaeth i gyfarfodydd ac Ymgynghoriadau.  <b><i>Cyfarwyddyd Pellach i gael ei ddarparu.</i></b>	Cadeiryddion PSRh i gadeirio WESB yn gylchol a chynhyrchu adroddiad diweddaru ar gyfer Cyngor Datblygu Economaidd (CDE). Rheolwyr PSRh i fynychu fel arsylwyr.	Yn ôl y gofyn
	Cynrychiolydd cyflogaeth PSRh i fod yn bresennol yn WAAB.	
	Cadeirydd PSRh i gynrychioli WESB ar CDE.	

	Aelodau a rhanddeilaid PSRh i ymgysylltu ag ymgynghoriadau LIC.	
Diweddaru Adroddiad (i gydymffurfio â Chymal 10 Llythyr Dyfarnu Grantiau)	Cyflwyno adroddiadau tystiolaeth am gynnydd gweithgareddau a ddynodwyd yn Atodlen 2.	Gorffennaf 2021 Tachwedd 2021 Mawrth 2022

## 6. Cyfarfodydd a Gweithgareddau PSRh

6.1. Cynhaliwyd Cyfarfodydd PSRh yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

- 12 Mai 2021
- 7 Gorffennaf 2021
- 4 Awst 2021
- 22 Medi 2021
- 20 Hydref 2021
- 8 Rhagfyr 2021
- 12 Ionawr 2022
- 23 Chwefror 2022
- 30 Mawrth 2022
- 11 Mai 2022
- 8 Mehefin 2022

6.2. Mae eitemau'r agenda wedi bod yn amrywiol ac roedd y canlynol yn eu plith:

- Aelodaeth y Bwrdd
- Grwpiau Clwstwr
- Y Fargen Twf
- Cynllun Gwaith PSRh
- Gwefan PSRh
- Cefnogaeth Data Cymru
- Data Llywodraeth Cymru – cyflwyniad ar Arolwg Sgiliau'r Cyflogwr
- Adroddiad Sgiliau Gwyrdd
- Cynllun Cyfathrebiadau
- Gyrfa Cymru – cyflwyniadau
- Cyflwyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau

6.3. Mae cyflwyniadau wedi cael eu derbyn a thrafodaethau wedi dilyn i helpu i lywio gwaith y PSRh. Maen nhw wedi cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Sgiliau Cynaliadwy Wavehill- Adroddiad Ymchwil Clwstwr – cyflwyniad Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
- Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio
- Prentisiaethau Rhanbarthol a Rennir – Ymgynghoriad Anffurfiol
- Strategaeth Cyflogadwyedd Newydd a Thwf Swyddi Cymru
- ReAct+
- Data Cymru – adroddiad Sgiliau Gwyrdd
- Canolbwyntio ar Aelodau
- Templed y Sgwrs Genedlaethol
- Peilot Cronfa Adnewyddu Cymunedol Canolfan y Dechnoleg Amgen: Prosiect Hyfforddiant Ôl-osod er mwyn Optimeiddio
- Datblygiad Strategaeth Twristiaeth



- Cronfa Ffyniant Gyffredin  
DU

6.4. Ar 19 Hydref, gwnaeth Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau gynnal digwyddiad rhithiol 'Eich Gyrfa, Eich Dyfodol' ac fe ymgynghorwyd â'r PSRh amdano. Gwnaeth Cadeirydd y PSRh ddarparu trosolwg o waith y PSRh, Ein Cryfderau Sectoraidd, ac Uchelgais Tyfu Canolbarth Cymru.

## 7. Adroddiad Sgiliau Gwyrdd

7.1. Cafodd Data Cymru ei gomisiynu gan y pedair PSRh i ddatblygu Adroddiad Sgiliau Gwyrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Cafodd canfyddiadau'r adroddiad hwn eu rhannu gyda LIC a phartneriaid rhanbarthol.

## 8. Adrodd yn ôl am Covid – 19

8.1. Drwy gydol y pandemig, gwnaeth PSRh gyflwyno adroddiadau effaith Covid-19 i LIC. Fel rhan o'r dystiolaeth anecdotaidd a ddefnyddiwyd yng nghyflwyniadau effaith Covid-19 i LIC, cafodd arolygon cyflogwyr eu hanfon i fusnesau Canolbarth Cymru drwy aelodau Bwrdd PSRh ac amrywiol rwydweithiau ledled y rhanbarth. Roedd yr adroddiad olaf yn grynodedb o'r effaith ar y rhanbarth.

## 9. Cefnogi Strategaethau Llywodraeth Cymru a meysydd polisi fel a gytunwyd. Llywio datblygu cyfeiriad polisi sgiliau ôl-etholiadol.

9.1. Mae PSRh Canolbarth Cymru yn parhau i gefnogi a hyrwyddo strategaethau allweddol LIC a meysydd polisi. Mae'r PSRh yn parhau i ddarparu safbwynt ranbarthol i lywio strategaethau sgiliau sector DU ac i ddarparu data gwaelodlin i gynllunio Addysg Bellach, gan ddefnyddio gwybodaeth dan arweiniad cyflogwr a data LMI.

9.2. Er mwyn cefnogi alinio cyflenwad a galw ar draws y system sgiliau, a chefnogi ailadeiladu economaidd rhanbarthol, a datblygiadau'r dyfodol, mae'r Rheolwr PSRh yn mynychu cyfarfodydd Grwpiau Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru. Ceir ymagwedd cydgysylltiedig ar draws y rhanbarth i raglen y Fargen Twf gyda'r PSRh yn bwydo i mewn o safbwynt sgiliau.

9.3. Er mwyn helpu i ddynodi blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau, yn seiliedig ar wybodaeth cyflogwr, mae Rheolwr Partneriaeth PSRh a'r Cadeirydd wedi cwrdd â darparwyr hyfforddiant ac aelodau busnes y Bwrdd PSRh i drafod data am anghenion sgiliau a dynodi cyfleoedd a leisiwyd gan aelodau busnes.

9.4. Roedd pedwar Cadeirydd PSRh yn bresennol mewn cyfarfod â Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi ar 3 Tachwedd 2021.

9.5. Gwnaeth Cadeirydd PSRh a Rheolwr Partneriaeth PSRh fynychu cyfarfodydd rheolaidd ag Emma Edworthy, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau, Llywodraeth Cymru.

- 9.6. Saif Rheolwr PSRh ar gyngor newydd ei ffurfio sef Cyngor Sgiliau Gwyrdd Hybrid, dan arweiniad Diwydiannau Gwyrdd Cymru, dan gadeiryddiaeth Carwyn Jones, cyn Brif Weinidog Cymru. Bwrdd ymgynghorol yw hwn i ddarparu arbenigedd a mewnwleidiad, diduedd a thu allan i ddiddordebauartneriaid darparu cyfredol gyda'r golwg ar ychwanegu gwerth a pheidio â chyflenwi. Yn ogystal â bod yn fodd o harneisio'r gwaith ardderchog parhaus ar draws arena'r diwydiant gwyrdd, y mae'n ymddwyn fel cyfaill beirniadol, corff ymgynghorol, cynghorol a chyfeiriadol, sy'n defnyddio sgiliau a gwybodaeth helaeth aelodau'r fforwm. Y nod yw darparu cyngor eang ar faterion sgiliau gwyrdd a barn wybodus arall, am eu heffaith.
- 9.7. Saif Rheolwr PSRh hefyd ar Banel Arbenigol Gwaith Teg Ar Gyfer Iechyd, Llesiant a Thegwch dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Diben y panel arbenigol hwn yw rhoi cyngor ar argymhellion ar gyfer asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol er mwyn gwella cyfranogiad mewn gwaith da a theg mewn modd sy'n cefnogi iechyd, llesiant a thegwch, ac i gynghori am gyfathrebu'r argymhellion hyn. Cafwyd canolbwyntio penodol ar yr effaith ar bobl ifanc a phlant, yng ngoleuni ymagwedd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r potensial am greithio hir dymor ymhlith pobl ifanc. Cafodd deunydd ei ddatblygu i ddylanwadu ar gynlluniau llesiant lleol a chynlluniau datblygu rhanbarthol a'u gweithredu. Mae'r ail gam – Ymgysylltu – yn mynd rhagddo.
- 9.8. Mae Rheolwr PSRh yn parhau i weithio'n agos at ein Prif Swyddogion Rhanbarthol perthnasol a rhanddeiliaid rhanbarthol i gefnogi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, Blaenoriaethau LIC a pharhau i adeiladu ymwybyddiaeth am faterion traws-ffiniol.
- 9.9. Cafodd y Rheolwr PSRh wahoddiad i eistedd ar Weithgor Fframweithiau Prentisiaeth Cymru gan edrych ar Wasanaethau Teithio a Fframweithiau Prentisiaeth Manwerthu i Gymru.

## 10. Gwarant i Bobl Ifanc

- 10.1. Mae'r Rhaglen Llywodraethu yn gosod allan ymrwymiad uchelgeisiol i gyflenwi'r Warrant i Bobl Ifanc, gan roi'r cynnig o gefnogaeth, i bawb sy'n iau na 25 oed, i mewn i waith, addysg, hyfforddiant neu hunan-gyflogaeth.
- 10.2. Cafodd y warrant ei gosod i sicrhau na fyddai cenhedlaeth goll ledled Cymru yn sgil cwmp economaidd a ragwelwyd a'r cynnydd anferthol mewn diweithdra oherwydd Covid a Brexit.
- 10.3. Gwnaeth y PSRh gomisiynu Hatch Associates i ddarparu cymorth technegol. Maen nhw wedi ymgymryd ag ymarferiad mapio o'r cyflenwad presennol a rhannu'r canfyddiad â Gyrfa Cymru ar gyfer cynhwysiant i'w llwyfan Canfod Cymorth.

10.4. Cafodd adroddiad drafft ei ddatblygu i ddynodi llwybrau cynnydd, rhwystrau a chynllun gweithredu a brofwyd i aelodau Bwrdd PSRh yn y cyfarfod nesaf ar gyfer sylwadau.

### **11. Cynllun 3 Blynedd Cyflogaeth a Sgiliau 2022 - 2025**

11.1. Cafodd PSRh gomisiwn gan LIC i ddatblygu Cynllun 3 blynedd newydd Cyflogaeth a Sgiliau a Chynllun Gweithredu a fydd yn dynodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol sy'n cefnogi swyddi a thyfiant yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

11.2. Mae'r arolwg Cyflogaeth a Sgiliau blynyddol wedi cael ei lansio gyda'r dyddiad cau ar 9 Medi. Caiff y wybodaeth hon oddi wrth gyflogwyr ei dadansoddi a'i hadlewyrchu yn yr adroddiad drafft.

11.3. Yn ogystal ag adroddiad 20 tudalen ar gyfer LIC, bydd yna nifer o ychwanegiadau sy'n canolbwyntio ar:

- Sgiliau digidol
- Sgiliau sero net
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- Addysg Bellach a Phrentisiaethau
- Y Gymraeg

Mae LIC wedi darparu'r Arweinwyr Polisi perthnasol i ddarparu cyd-destun ychwanegol ac i ddarparu diweddariadau amserol oddi wrth eu hardaloedd/meysydd. Cynhaliwyd gweithdai polisi penodol dros fisoedd yr haf i helpu PSRh gyda hyn.

11.4. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r prif adroddiad yw canol mis Hydref. Mae LIC yn cydnabod y bydd peth o'r ychwanegiadau yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach yn dibynnu ar adroddiadau'n cael eu rhannu gan Arweinyddion Plolisi LIC i adlewyrchu cynnydd.

### **12. Gweithgareddau Eraill**

12.1. Mae cyfarfodydd ar y cyd yn parhau gyda Rheolwyr PSRh a Llywodraeth Cymru i edrych ar gyfarwyddyd ac adborth y Cyfrif Dysgu Personol. Mae'r Rheolwr PSRh yn aros am adroddiad cynhwysfawr oddi wrth LIC sy'n manylu ar ddarpariaeth gyfredol a chysiau sy'n cael eu cynnig ar draws y rhanbarth.

12.2. Mae'r Rheolwr PSRh yn gweithio'n agos at y Rheolwyr PSRh eraill i ddatblygu capasiti a galluoedd yn barhaus fel rhwydwaith PSRh cenedlaethol. Enghraifft o hyn yw'r Adroddiad Sgiliau Gwyrdd.

12.3. Mae PSRh wedi datblygu cydberthnasau gyda phartneriaid allweddol fel Gyfra Cymru, Gweithio Dros Gymru, Yr Adran Gwaith a Phensiynau a Serco (Restart). Ar 19 Hydref, cynhaliodd Gyrfu Cymru a'r Adran Gwaith a

Phensiynau ddigwyddiad rhithiol ar y cyd 'Eich Gyrfa, Eich Dyfodol' yr ymgymhorwyd â PSRh amdano. Gwnaeth Cadeirydd PSRh ddarparu trosolwg o waith y PSRh, Ein Cryfderau Sectoraidd, ac Uchelgais Tyfu Canolbarth Cymru.

### 13. Myfyrdodau'r Cadeirydd

- 13.1. Ers ei dechreuad, mae PSRh wedi gosod ei hun yn llwyddiannus mewn safle o ddylanwad gyda nifer o sefydliadau sgiliau galwedigaethau cenedlaethol a rhanbarthol.
- 13.2. Mae gweithredu oddi fewn i amgylchedd COVID-19 wedi cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu'n bersonol a rhwydweithio i PSRh, ei phartneriaid a'i haelodau. Y gobaith yw y bydd hyn y llai o her yn y dyfodol, ac y caiff ymgysylltu ei wella ymhellach rhwng cyflogwyr a darparwyr.
- 13.3. Mae rhai sectorau yn weddill o hyd eto i ymgysylltu â Bwrdd PSRh, sef y sector Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod. Mae LANTRA yn ymgysylltu gyda sgiliau rhanbarthol a thrafodaethau hyfforddi.
- 13.4. Bydd datblygiad a chyflenwad llwyddiannus o Gynllun 3 blynedd Cyflogaeth a Sgiliau 2022 – 2025 yn hanfodol i strategaeth gyflogadwyedd Bargaen Twf Canolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd hon yn nodwedd allweddol o gynllun gwaith PSRh ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.
- 13.5. Bydd y Grŵp Clwstwr Busnesau sydd newydd ei greu, yn darparu cyfle gwerthfawr i gyflogwyr fwydo i PSRh, a blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol. Mae gwaith nodedig y tîm PSRh ers Mai 2021 wedi darparu seiliau cadarn ar gyfer ei gwaith yn y dyfodol. Mae angen i'r tîm barhau i gynyddu ei adnoddau, fel y gall fodloni ei dargedau a'i alluedd fel rhwydwaith PSRh cenedlaethol.
- 13.6. Mae trafodaethau llwyddiannus gyda LIC o ran ariannu hir dymor, yn golygu y bydd yn gallu adeiladu ar ei blwyddyn gyntaf lwyddiannus, a chefnogi'r nodau ar gyfer strategaeth Tyfu Canolbarth Cymru.
- 13.7. Mae aelodau Bwrdd PSRh wedi bod yn rhagweithiol wrth gefnogi tîm PSRh gyda'r Warrant i Bobl Ifanc a meysydd Polisi eraill Llywodraeth Cymru drwy weithdai, trafodaethau ac arolygon.

<b>Adroddiad</b>	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Adroddiad Blynyddol
<b>Awdur</b>	Aggie Caesar-Homden, Rheolwr PSRh. Aggie.caesar-homden@powys.gov.uk
<b>Dyddiad</b>	Medi 2022